Gwybodaeth ychwanegol am gymorthdaliadau llety

Yn dilyn y newidiadau diweddar yn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, o flwyddyn academaidd 2018/19, bydd y Brifysgol yn cynnig cymorth ar ffurf cymhorthdal i fyfyrwyr y mae angen llety en suite ar y campws arnynt oherwydd anabledd. Bydd y broses hon ar wahân i'r cymorth a ddarperir i fyfyrwyr ag anableddau drwy roi blaenoriaeth iddynt wrth ddyrannu llety ar y campws. Ni fydd myfyrwyr sy'n gymwys i gael blaenoriaeth wrth ddyrannu llety en suite ar y campws yn derbyn y cymhorthdal yn awtomatig a bydd rhaid iddynt gyflwyno cais.

Ni fydd myfyrwyr mewn llety en suite ar y campws sydd wedi datgelu anableddau'n derbyn y cymhorthdal yn awtomatig. Ystyrir ceisiadau yn unol â'r meini prawf isod ynghyd â thystiolaeth ategol a gyflwynir gyda'r cais. Caiff myfyrwyr gyflwyno cais unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn academaidd ac, os yw'r cais yn llwyddiannus, caiff y cymhorthdal ei ddyfarnu am gyfnod cyfan eu contract llety am y flwyddyn academaidd honno. Os bydd myfyrwyr yn symud i lety en suite ar y campws yn hwyrach yn y flwyddyn, caiff y cymhorthdal ei ddyfarnu ar sail pro rata, gan ddibynnu ar nifer yr wythnosau ers iddynt symud i mewn i'r ystafell en suite.

Cyfrifir y cymhorthdal ar sail y gwahaniaeth rhwng ystafell safonol â chyfleusterau a rennir ar y campws dan sylw ac ystafell â chyfleusterau en suite.

Bydd myfyrwyr cymwys yn derbyn y cymhorthdal yn ôl-weithredol bob tymor, ar ffurf credyd yn eu cyfrif myfyriwr. Os bydd natur ôl-weithredol y cymhorthdal yn achosi unrhyw anawsterau ariannol i fyfyrwyr sy'n golygu nad ydynt yn gallu talu eu ffioedd llety wrth wneud cais am y cymhorthdal, dylent gysylltu ag Arian@BywydCampws i drafod y ffordd orau o'u cefnogi.

Nid yw cyfleustra na dewis personol yn rhan o'r meini prawf cymhwyso ac ni chânt eu hystyried. Ni fydd myfyrwyr yn gymwys oni bai iddynt fodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol:

1. Mae angen llety en suite ar y campws oherwydd anabledd corfforol, h.y. anhawster symud/defnyddiwr cadair olwyn, lle mae anghenion hygyrchedd penodol yn golygu nad oes modd i'r myfyriwr rannu ystafell ymolchi ag eraill.

2. Mae angen llety en suite ar y campws o ganlyniad i anabledd synhwyraidd, e.e. nam ar y golwg sy'n amharu ar annibyniaeth y myfyriwr wrth ddefnyddio ystafell ymolchi a rennir, oherwydd bod myfyrwyr eraill yn effeithio ar hygyrchedd yr ystafell ymolchi neu allu'r myfyriwr i'w defnyddio.

3. Achosion eithriadol, lle mae uwch aelodau o staff y Gwasanaethau Lles o'r farn bod llety en suite yn briodol, ar sail tystiolaeth annibynnol o anawsterau parhaus sy'n effeithio'n sylweddol ar allu'r myfyriwr i ddefnyddio ystafell ymolchi a rennir.

Os ydych yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf uchod, cwblhewch y ffurflen gais ac atodwch dystiolaeth ategol briodol. Os oes angen cymorth arnoch i gyflwyno'ch cais, cysylltwch â'r Gwasanaethau Anabledd yn Anabledd@BywydCampws. Caiff yr wybodaeth a gyflwynir yn y cais ei defnyddio at ddibenion y cymhorthdal yn unig a chaiff ei thrin yn gyfrinachol gan y Gwasanaethau Preswyl ac aelodau'r Gwasanaethau Cymorth Llesiant.

Cewch eich hysbysu am ganlyniad eich cais drwy e-bost.